



The Open
University
Y Brifysgol
Agored

WALES CYMRU

Narrator

Bob dydd, mae 7.2 miliwn o fyfyrwyr yn cerdded i mewn i ystafelloedd dosbarth ledled yr Unol Daleithiau. Yn gyffredinol, mae'r ystafelloedd dosbarth hyn yn edrych yr un fath. Mae 30 o fyfyrwyr yn eistedd mewn rhesi o ddesgiau yn gwneud nodiadau yn eu llyfrau nodiadau tra bod yr athro'n sefyll wrth fwrdd gwyn yn addysgu gwers.

Beth bynnag fo lefel eu gallu, caiff pob myfyriwr yr un wybodaeth yn union ar yr un cyflymdra yn union. Wrth i Ms. Jackson gyflwyno'r un deunydd, mae'r myfyrwyr yn ymateb yn wahanol. Mae Tommy yn deall, tra bod Allison wedi diflasu, ac mae Maria ar goll.

Ar ddiwedd y dydd, mae'r un myfyrwyr hyn yn mynd adref. Tra byddant gartref, maen nhw'n eistedd wrth fwrdd y gegin yn gwneud eu gwaith cartref ac yn ceisio cofio'r hyn ddywedodd Ms. Jackson. Mae myfyrwyr fel Tommy yn gallu gwneud y rhan fwyaf o'r gwaith cartref, tra bod myfyrwyr eraill, fel Allison, yn ei weld yn hawdd ac yn ei wneud yn gyflym. Ar yr un pryd, mae myfyrwyr fel Maria yn mynd yn rhwystredig ac angen cymorth ychwanegol.

Mae Ms. Jackson yn cydnabod bod gan fyfyrwyr wahanol anghenion, a byddai wrth ei bodd yn gweithio'n unigol gyda phob myfyriwr. Ond mae angen amser ac adnoddau ar gyfer hyn, ac nid oes gan ei hysgol y rhain. Un ateb i'r broblem hon yw'r ystafell ddosbarth wrthdro. Dyma sut beth ydyw.

Tra bydd myfyrwyr gartref, maen nhw'n eistedd yn eu hystafelloedd yn gwyllo fideos o'r wers a bennwyd gan Ms. Jackson. Gall Tommy weithio ar ei gyflymdra arferol o hyd. Dydy Allison ddim wedi diflasu mwyach gan ei bod yn awr yn gallu defnyddio'r dechnoleg newydd hon i gamu ymlaen trwy'r deunydd hawdd. A dydy Maria ddim yn teimlo'n rhwystredig mwyach gan ei bod yn gallu adolygu'r deunydd nad oedd hi'n ei ddeall trwy roi'r fideo ar saib a'i droi yn ôl. Pan fydd hi wir yn cael trafferth â'r gwaith, gall gael cymorth gan ei chyfoedion yn y dosbarth. Mae platfformau technoleg newydd fel Moodle ac Edmodo yn ei gwneud yn hawdd iddi sgwrsio ar-lein â'i chyfoedion.

Mae'r ystafell ddosbarth yn wahanol hefyd, fel y gwaith cartref. Yn hytrach na sefyll o flaen yr ystafell yn siarad, mae Ms. Jackson yn cerdded o gwmpas yr ystafell. Mae'n gwneud yn siŵr fod Tommy yn iawn wrth iddo gydweithio â rhai myfyrwyr, mae'n gwthio Allison ymhellach trwy roi gwaith mwy heriol iddi, ac mae'n helpu Maria gyda'r darnau nad yw'n eu deall yn iawn o hyd.

Yn y model traddodiadol, mae'r athrawes yn sefyll rhwng y myfyrwyr a'r wybodaeth. Ond gyda'r model ystafell ddosbarth wrthdro, caiff y myfyrwyr fynediad uniongyrchol

at y wybodaeth, ac mae'r athrawes yn gweithredu fel hyfforddwr, mentor, ac arweinydd, gan helpu'r myfyrwyr i fanteisio ar y wybodaeth hon. Mae'r ystafell ddosbarth wrthdro yn defnyddio technoleg mewn ffordd sy'n gadael i Ms. Jackson a'r myfyrwyr wneud y gorau o'u hamser a'u hymdrechion.